Prosbectws Y Sector Hŷn

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Yn darparu addysg ar gyfer eich plentyn o 3 – 19 oed

Rydym am i bob plentyn sy'n dod i Fro Pedr i deimlo mai eu hysgol nhw yw hon a bod gan bob un ohonynt ran unigryw i'w chwarae yn nyfodol eu hysgol.

Diolch yn fawr am ystyried Ysgol Bro Pedr ar gyfer eich plentyn. Dyma ddechrau ar bartneriaeth hir rhyngom ni fel ysgol a chwithau fel rhieni.

Mae pob plentyn yn unigolyn a'n cenhadaeth fel ysgol yw cynnig y seiliau addysgol gorau posibl ar gyfer pob un o'n disgyblion. Ein ffocws dros y blynyddoedd nesaf fydd cyflawni potensial eich plentyn yn llawn, a'i baratoi ar gyfer yr heriau sydd i ddod. Yn flynyddol, rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant ein disgyblion wrth iddynt ennill eu lle yn rhai o brifysgolion gorau Prydain neu ar gynlluniau hyfforddi uchelgeisiol.

Bydd y blynyddoedd nesaf yn hedfan heibio ac rydym am i'ch plentyn edrych nôl dros ei gyfnod ym Mro Pedr gyda boddhad a balchder. Rydym am i bob plentyn sy'n dod i Fro Pedr deimlo mai eu hysgol nhw yw hon a bod gan bob un ohonynt ran unigryw i'w chwarae yn nyfodol eu hysgol.

Mae'n disgwyliadau ar gyfer ein disgyblion yn uchel - o ran eu datblygiad academaidd, eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol ac o ran eu huchelgais am y dyfodol.

Addysgu a Dysgu ym Mro Pedr

Un o gryfderau Bro Pedr yw safon uchel yr addysgu ar draws y cwricwlwm. Credwn fod addysg yn fwy na dysgu ffeithiau'n slafaidd, ac mai'n rôl yw cyflwyno cwricwlwm eang a gwersi sy'n ysbrydoli ein disgyblion i fwynhau eu haddysg ac i feddwl yn greadigol ac yn ddadansoddol.

Byddwn yn gofyn i'n disgyblion yn rheolaidd am eu barn a'u hadborth am gynnwys eu gwersi a bydd ein hathrawon yn ystyried adborth ein disgyblion wrth gynllunio gwersi. Byddwn yn ystyried anghenion pob disgybl ac yn trefnu cefnogaeth benodol ar gyfer rhai o'n disgyblion a chyfleoedd estynedig i'n disgyblion sydd â thalentau gwahanol i ymestyn eu sgiliau a'u talentau.

Mae'r bartneriaeth hon rhwng ein hathrawon a'n disgyblion yn sail i'n llwyddiant fel ysgol.

Mae'n cwricwlwm yn fwy na chasgliad o bynciau. Rydym am ddysgu'n disgyblion sut i ddysgu'n effeithiol, i feddwl yn ddadansoddol ac i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Cwricwlwm sy'n eang ac yn heriol

Yn ogystal ag astudio casgliad o bynciau gwahanol, rydym am i'n disgyblion fedru cyfathrebu'n effeithiol mewn mwy nag un iaith. Rydym am iddynt ddefnyddio rhif yn hyderus mewn ystod o feysydd gwahanol ac i ddatrys problemau yn rhesymegol. Byddwn am iddynt fedru gweithio'n effeithiol ac yn gyfforddus gyda'u cyd-ddisgyblion ac i ddod i benderfyniadau ar sail data a gwybodaeth amrywiol. Dyma'r math o sgiliau fydd eu hangen arnynt yn y dyfodol mewn addysg uwch a byd gwaith.

Mae safonau a chyraeddiadau ein disgyblion yn gyson dda ac yn cymharu'n ffafriol iawn gydag ysgolion da eraill a gyda chanlyniadau Ceredigion a Chymru. Mae canlyniadau nifer o'n hadrannau ymhlith y gorau yng Nghymru ac mae'r dewis eang o bynciau ar gyfer ein disgyblion yn golygu y gall pob disgybl ddatblygu ei ddiddordebau a'i gryfderau personol o Flwyddyn 7 hyd at y Chweched Dosbarth.

Mae gan yr ysgol adnoddau ardderchog, sy'n atgyfnerthu'n haddysgu da a'n cwricwlwm eang. Gwelwyd buddsoddiad sylweddol yn ein hadrannau Technoleg Gwybodaeth, Dylunio a Thechnoleg, Peirianneg a Gwyddoniaeth. Mae Bro Pedr yn gweithredu fel hwb ar gyfer darparu ystod o gyrsiau Chweched Dosbarth amrywiol ar gyfer sawl ysgol gyfagos.

Edrychwn ymlaen i groesawu'ch plentyn fel aelod newydd o deulu Bro Pedr!

Addysg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

Dyma un o gryfderau mawr yr ysgol. Mae disgyblion Bro Pedr yn cael ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau chwaraeon, eu sgiliau creadigol, eu sgiliau entrepreneuraidd, eu sgiliau ieithyddol a'u diddordebau amgylcheddol a gwleidyddol.

Fel disgybl ym Mro Pedr, fe gaiff eich plentyn lu o gyfleoedd gwahanol i ddatblygu ei ddiddordebau personol ac i brofi pethau newydd.

Yn flynyddol mae'r Adran Dylunio a Thechnoleg yn cystadlu ar y llwyfan Prydeinig. Caiff ein disgyblion gyfleoedd eang i gystadlu mewn ystod o gampau ac i fynychu gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin a theithiau sgïo. Trefnir ymweliadau cyson â'r theatr, i orielau celf ac i berfformiadau cerddorol.

Mae'r cyfleoedd i deithio hefyd yn eang, ac yn cynnwys ymweliadau â gwledydd megis Gwlad Yr Iâ, America, Sweden, Gwlad Belg, Moroco ac yn y blaen.

Rydym yn falch o lwyddiant ein disgyblion ar lwyfannau eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol.

Mae ein disgyblion yn cystadlu mewn cystadlaethau dadlau gyda'r Urdd, Y Rotari, yr Oxford Speaking Union a CEWC, yn ogystal â chystadlaethau cenedlaethol Mathemateg a Menter a Busnes.

Gofal Bugeiliol ym Mro Pedr

Mae Ysgol Bro Pedr yn ysgol hapus. Mae'r berthynas rhwng staff yr ysgol a'n disgyblion yn arbennig. Mae cymuned yr ysgol yn un gynhwysol a'n nod yw bod llais pob disgybl yn cael ei glywed. Mae'r disgyblion yn cael mynegi barn yn rheolaidd am gynnwys eu gwersi. Mae pob dosbarth yn cael ei gynrychioli ar y Cyngor Ysgol ac mae'r Cyngor yn cwrdd yn rheolaidd i drafod pob math o faterion sy'n ymwneud â bywyd ein disgyblion yn yr ysgol.

O bryd i'w gilydd, bydd disgyblion yn teimlo o dan bwysau. Gall hyn ddigwydd pan fydd dyddiadau tasgau gwaith cwrs neu arholiadau yn agosáu. Bydd sawl person ar gael i'w cefnogi: Tiwtor Personol y disgybl, mentoriaid unigol, Pennaeth Ffês, Pennaeth Cynnydd, athrawon pwnc, disgyblion sy'n gweithredu fel mentoriaid, Cownselydd Ysgol. Y peth pwysig yw eu bod yn dweud!

Mae gan yr ysgol Gyngor Gwrth-fwlio ac rydym yn awyddus i daclo unrhyw ddigwyddiadau o fwlio yn brydlon ac yn effeithiol. Os bydd unrhyw beth yn poeni eich plentyn cysylltwch â ni yn yr ysgol yn ddi-oed.

Enwau Cyswllt

David Williams	Pennaeth
Dafydd Charles	Dirprwy Bennaeth (Mynediad)
Dianne Evans	Dirprwy Bennaeth (Cwricwlwm)
Heulyn Roderick	Pennaeth Ffês (Bl.7 & 8)
Nerys Stephens	Pennaeth Ffês (Bl.9-11)
Edwina Rees	Pennaeth Y Chweched (Bl.12&13)

Ysgol Rieni-Gyfeillgar

Ein rhieni yw rhai o'n hadnoddau pwysicaf fel ysgol. Mae gan yr ysgol Fforwm Rhieni sy'n cwrdd o leiaf unwaith bob tymor. Mae'r agenda yn gwbl agored ac mae'r rhieni'n cael codi unrhyw agweddau maent yn awyddus i'w trafod gyda ni fel ysgol. Byddwn hefyd yn achlysurol yn trefnu nosweithiau i rannu gwybodaeth am gwricwlwm a chynnydd ein disgyblion. Bob tymor byddwn yn estyn gwahoddiad i rieni i ymweld â ni er mwyn gweld yr ysgol "ar waith". Edrychwn ymlaen i gydweithio gyda chi!

Manylion Cyswllt

Ysgol Bro Pedr

Teras Ffynnonbedr, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7BX

01570 422214

gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

Senior Sector Prospectus

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Providing an education for your child from 3 – 19

We want every child who comes to Bro Pedr to feel that this is their school and that every one of them has an unique role to play in the school's future.

Thank you for considering Ysgol Bro Pedr for your child. This is the beginning of a long partnership between the school and you our parents.

Every child is an individual and our mission as a school is to provide the best possible educational foundation for each of our pupils. Our focus over the coming years will be to help our pupils realize their potential fully and to prepare them for the challenges of the future. Annually, we take great pride in the success of our students as they secure places in some of Britain's top universities or on ambitious training schemes.

The next few years will fly by and we want your child to look back at his/her time at Bro Pedr with contentment and pride. We want every child who comes to Bro Pedr to feel that this is their school and that every one of them has an unique role to play in the school's future.

Our expectations for our pupils are high—in respect of their academic development, their emotional and social development and in terms of their future aspirations.

Teaching and Learning at Bro Pedr

One of Bro Pedr's strengths is the high standard of teaching across the curriculum. We think that education is more than simply learning facts slavishly and that our role is to provide a broad curriculum which inspires our pupils to enjoy their education and to think creatively and analytically.

We regularly ask our pupils for their opinions and for their feedback in respect of their lessons and our teachers consider this feedback as they plan their lessons. We carefully consider the needs of all our pupils, arranging bespoke support for some of our pupils and opportunities for our pupils with specific talents to extend their skills and talents.

This partnership between our pupils and their teachers is the basis for our success as a school.

A curriculum that is broad and challenging

In addition to studying a collection of different subjects we want our pupils to be able to communicate effectively in more than one language. We want them to be numerate within a range of different situations and to solve problems logically. We want them to be able to work effectively and comfortably with their peers and to make decisions on the basis of a range of different data and information. These are the kind of skills they will need later on in higher education or in the world of work.

The standard achieved by our pupils is consistently good, comparing favourably with other good schools and with the results of Ceredigion and Wales. The results attained by a number of our departments are amongst the best in Wales and the wide choice of courses offered at the school means that every pupil can develop his/her interests and personal strengths from Year 7 through to the Sixth Form.

The school has excellent facilities, which support the school's good teaching and broad curriculum. We have invested heavily in our Information Technology, Design Technology and our Engineering and Science Departments. Bro Pedr provides a range of Sixth Form courses for other neighbouring schools.

We look forward to welcoming your child as a new member of the Bro Pedr family!

This is one of the school's strengths. Bro Pedr pupils get a range of opportunities to develop their sporting skills, their creative talents, their entrepreneurial skills, their linguistic skills and their environmental and political interests.



The curriculum is more than a collection of subjects. We strive to teach our pupils to learn effectively, to think analytically and to be independent learners.

As a pupil at Bro Pedr, your child will get a wide range of opportunities to develop his / her personal interests and to experience new things.

Annually, the Design Technology Department competes at UK level. Our pupils compete in a range of sporting events and have the opportunity of attending Duke of Edinburgh Award programmes and skiing trips. Regular visits are arranged to theatres, art galleries and musical performances.

Opportunities to travel are also diverse and include visits to countries such as Iceland, America, Sweden, Belgium, Morocco etc.

We are proud of our students' successes in the National and Urdd National Eisteddfodau. Our pupils compete in public speaking and debating competitions arranged by the Urdd, the Rotary, the Oxford Speaking Union and CEWC as well as competing in national Mathematics and Business and Young Enterprise competitions.

Education that goes beyond the classroom

Pastoral Care at Bro Pedr

Ysgol Bro Pedr is a happy school. The relationship between our staff and the pupils is special. The school community is inclusive and our aim is that the voice of every pupil is heard. Our pupils are encouraged regularly to offer their opinions on their lessons. Every class is represented on the School Council which meets regularly to discuss a variety of issues which are relevant to our pupils' lives at school.

From time to time pupils feel under pressure. This can happen when coursework or examination dates get nearer. There will be a number of staff who can provide support: the pupil's Personal Tutor, pupil mentors, the Heads of Phase, Progress Leaders, subject teachers, pupil peer mentors and the School Counsellor. The important thing is that they let us know!

The school has an Anti-bullying Council and we are eager to tackle any incidents of bullying effectively. Should there be anything that worries your child, get in touch immediately.

A Parent-Friendly School

Our parents are some of the most important resources the school has. The school has a Parents' Forum which meets at least once a term. The agenda is an open one and our parents are able to raise any issues which they are eager to discuss with us as a school. Periodically, we arrange evenings to share information about your child's curriculum as well as the usual progress evenings. Every term we extend an invitation for parents to join us to see the school "in action". We look forward to working with you.

Contact Names

David Williams	Head
Dafydd Charles	Deputy Head (Admissions)
Dianne Evans	Deputy Head (Curriculum)
Heulyn Roderick	Head of Phase 2 (Yrs. 7 & 8)
Nerys Stephens	Head of Phase 3 (Yrs. 9 & 11)
Edwina Rees	Head of Sixth (Yrs. 12 & 13)

Contact Details

Ysgol Bro Pedr

Teras Ffynnonbedr
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 7BX

01570 422214

gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk